## TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# IMI Diagnosis, Profi ac Atgyweirio Cerbydau Trydanol/Hybrid a Chydrannau Lefel 4



**Yn gryno**

Mae’r cwrs hwn ar gael fel rhan o Gyfrif Dysgu Personol (PLA). Mae PLA yn fenter gan Lywodraeth Cymru sy’n cynnig cyfle i bobl gael mynediad at gyrsiau rhan-amser, rhad ac am ddim sydd â ffyrdd hyblyg a chyfleus o ddysgu sy’n addas i’w ffordd o fyw bresennol (yn amodol ar gymhwysedd).

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i ddatblygu mewn cysylltiad agos gydag arbenigwyr yn y diwydiant, gwneuthurwyr cerbydau trydan, darparwyr hyfforddiant, iechyd a diogelwch a'r Cyngor Sgiliau Sector IMI. Dyma'r cymhwyster cyntaf o'i fath i fynd i'r afael â gweithio ar systemau a chydrannau foltedd uchel cerbydau trydan/hybrid byw. Mae'r cymhwyster yn angenrheidiol er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch unigolion sy'n gweithio ar gerbydau trydan/hybrid. Wedi iddynt gwblhau'r cymhwyster bydd technegwyr yn gallu arddangos mewn ffordd ymarferol bod y sgiliau angenrheidiol ganddynt er mwyn atgyweirio systemau a chydrannau foltedd uchel cerbydau.

Bwriedir y cymhwyster hwn ar gyfer technegwyr sy'n cynnal ac yn atgyweirio systemau a chydrannau foltedd uchel cerbydau trydan/hybrid. Mae'n cynnwys yr wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol er mwyn gweithio ar gydrannau a systemau cysylltiedig cerbydau foltedd uchel

byw.

Wedi iddynt gwblhau'r cymhwyster bydd technegwyr yn gallu arddangos mewn ffordd ymarferol bod y sgiliau angenrheidiol ganddynt er mwyn atgyweirio systemau a chydrannau foltedd uchel cerbydau.